Gellir torri y cardiau isod, eu cymysgu, a gofyn i'r dysgwyr osod y testun gyda'r pennawd cywir.

| | |
|---|---|
| Cefndir y pentref | Roedd cymdeithas Cwm Tryweryn yn un Gymreig iawn a mwyafrif helaeth trigolion pentref Capel Celyn yn siarad Cymraeg. |
| Beth sydd i'w weld yno heddiw? | Llyn Celyn sydd i'w weld yno heddiw. Cronfa ddŵr fawr ar gyfer dinas Lerpwl yw Llyn Celyn a adeiladwyd yn 1961 drwy osod argae ar draws Afon Tryweryn. |
| Ymateb y trigolion lleol i'r newyddion | Roedd y trigolion wedi dychryn wrth glywed y newyddion. Byddai caniatâd gan Lundain i foddi'r Cwm yn golygu gorfodi trigolion y pentref i werthu eu tir a'u ffermydd i'r Llywodraeth a symud i fyw i rywle arall. |
| Atgofion Elwyn Edwards a ymunodd â'r brotest yn 13 oed. | Ddydd Mercher, Tachwedd 21, 1956 trefnwyd dau fws i fynd i Lerpwl i brotestio yn erbyn y boddi. Penderfynais beidio â mynd i'r ysgol y diwrnod hwnnw a bod rhaid i mi fynd i Lerpwl i brotestio yn erbyn eu cynlluniau gwallgo'. |
| Diwrnod Olaf Yr Ysgol | Roedd diwrnod olaf y plant yn yr ysgol yn ddiwrnod arbennig iawn. Trefnwyd cyfarfod a gwasanaeth olaf yn yr ysgol ar Orffennaf 25ain 1963. |
| Yr Agoriad Swyddogol | Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, penderfynwyd cael agoriad swyddogol i'r llyn ym mis Hydref 1965. |